## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Huw Rees | Adran Etholiadol: | Sgeti |
|---|---|---|---|

### Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Euthum i gymorthfeydd ddwywaith y mis ar sail rota, a gynhaliwyd naill ai yn Llyfrgell Sgeti neu yn y ganolfan gymunedol ar Gilgant Grug.

Euthum hefyd i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT).

Ar ben hynny, euthum i gyfarfodydd preswylwyr Sgeti a chefnogi Cyfeillion Parc De La Beche.

### Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 17 | 88 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 | / | 7 | 71 | % |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 4 | / | 5 | 80 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 13 | / | 16 | 81 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 3 | 33 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **51** | **/** | **62** | **82** | **%** |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **1** | **/** | **1** | **100** | **%** |

### Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Cefnogais fentrau parhaol i gadw Llyfrgell Sgeti ar agor.

Cefnogais breswylwyr Heol Warwick a Ffordd Saunders ynglŷn ag effaith traffig trwm sy'n teithio ar hyd y ffordd; hefyd y problemau parcio y daethpwyd ar eu traws yn 'Y Bryn'.

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Roeddwn bob amser ar gael bob dydd i helpu f'etholwyr gyda'r problemau amrywiol y daethpwyd ar eu traws, megis parcio, goleuadau stryd a choed peryglus.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Yn fy 16 mlynedd o fod yn gynghorydd, rwyf wedi mynd i'r holl sesiynau hyfforddi gorfodol sy'n angenrheidiol i ymgymryd â'm rôl.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fel cynathro, rwyf wedi bod yn llywodraethwr ysgol ers y 35 mlynedd diwethaf.

Rwyf bob amser wedi ymdrin yn gyflym iawn â phroblemau y mae f'etholwyr wedi'u codi gyda fi.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| **Dyddiad**: | 05.10.15 |
|---|---|